

Llywodraeth EM

Archif

# Cynllunio seilwaith

## Sut y bydd yn gweithio? Sut gallaf leisio fy marn?

# Y broses gynllunio newydd ar gyfer seilwaith allweddol

Mae Deddf Gynllunio 2008 yn cyflwyno system gynllunio symlach newydd ar gyfer ceisiadau i adeiladu cyfleusterau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr[1]. Bydd y system newydd yn cwmpasu ceisiadau ar gyfer cynhyrchu pŵer ar raddfa fawr, rheilffyrdd, porthladdoedd, priffyrdd, meysydd awyr a seilwaith dŵr a gwastraff. Bydd prosiectau seilwaith llai sydd o dan y trothwyon a nodir yn y Ddeddf, a datblygiadau eraill megis tai neu fanwerthu, yn parhau i gael eu trin o dan y systemau cynllunio presennol.

Roedd yr hen broses gynllunio ar gyfer ystyried y ceisiadau seilwaith hyn yn araf ac yn gymhleth ac yn aml roedd angen cymeradwyo'r prosiectau sawl gwaith. Bydd y system newydd yn gwneud y broses yn gynt, yn decach ac yn haws i bobl ymwneud â hi.

Archif

O dan y system newydd, caiff polisi cenedlaethol ei nodi mewn cyfres o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol (Datganiadau) newydd. Caiff rhain eu cwblhau'n derfynol gan y Llywodraeth ar ôl arfarnu eu cynaliadwyedd, ac wedyn ymgynghoriad cyhoeddus a chraffu Seneddol.

Unwaith y bydd y Datganiadau ar waith bydd corff annibynnol newydd, y Comisiwn Cynllunio Seilwaith (y Comisiwn), yn archwilio'r ceisiadau am ddatblygiadau seilwaith newydd ac yn gwneud penderfyniadau arnynt, gan ddefnyddio'r meini prawf ar angen, buddiannau ac effeithiau cenedlaethol fel y nodir yn y Datganiadau, ac yn ystyried tystiolaeth a gyflwynir ar effeithiau lleol posibl.

[1] a phiblinellau olew a nwy trawsffiniol i'r Alban. Yng Nghymru dim ond i geisiadau porthladdoedd ac ynni y bydd y system newydd yn gymwys.



# Pam mae angen system newydd?

Archif

Bydd y drefn newydd rydym yn ei sefydlu yn ein galluogi i wneud penderfyniadau am seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol mewn ffordd sy'n decach ac yn gynt. Mae hyn yn hanfodol i'n lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol, gan gynnwys mynd i'r afael â her newid yn yr hinsawdd, cryfhau llais cymunedau a chreu amgylchiadau ar gyfer llwyddiant economaidd yn y dyfodol.

Dros yr 20 mlynedd nesaf mae angen i ni adnewyddu tua thraean o'n hadnoddau cynhyrchu trydan presennol. Oni ddefnyddiwn lawer mwy o ynni adnewyddadwy byddwn yn cael anhawster i leihau allyriadau carbon, yr ydym wedi ymrwymo i'w wneud fel rhan o'r dasg o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Ar yr un pryd mae angen i ni wella ein cyfleusterau trafnidiaeth – rheilffyrdd, porthladdoedd, ffyrdd a meysydd awyr – a'n cyfleusterau dŵr a gwastraff. Mae angen i ni wneud hyn mewn modd sy'n ystyried buddiannau cymunedau lleol a phwysigrwydd diogelu a gwella'r amgylchedd.

Ar hyn o bryd mae'n gallu cymryd llawer rhy hir i wneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol. O dan y broses newydd disgwyliwn i'r amser a gymerir o gyflwyno cais i wneud penderfyniad fod yn llai na blwyddyn yn y mwyafrif o achosion. Disgwylir i hyn arbed hyd at £300m y flwyddyn i'r DU.

# Sut bydd yn gweithio?

Bydd y Comisiwn yn gweithredu proses caniatâd datblygu unstop ar gyfer proseictau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol.

Bydd y Comisiwn yn penderfynu rhoi caniatâd ai peidio ar sail y polisïau a nodwyd yn y Datganiadau, gan ystyried cyfraith ddomestig ac Ewropeaidd, adroddiadau gan awdurdodau lleol yr effeithir arnynt, a thystiolaeth a gyflwynir gan gymunedau lleol a phartïon eraill â diddordeb yn ystod yr archwiliad. Bydd y Comisiwn yn pwyso a mesur y buddiannau ac effeithiau anffafriol y cais wrth wneud ei benderfyniad. Bydd yn rhaid i'r Comisiwn roi rhesymau manwl am ei benderfyniadau a gall gael ei herio yn y llysoedd os bydd pobl yn credu ei fod wedi gweithredu'n afresymol.


Bydd y broses newydd yn rhoi cyfleoedd cliriach a gwell i'r cyhoedd a chymunedau lleol gymryd rhan o'r cam cyntaf yn y penderfyniadau a fydd yn effeithio arnynt (am ragor o wybodaeth gweler cyfeiriad y wefan ar ddiwedd y daflen hon). Bellach bydd tri chyfle i unigolion a grwpiau leisio eu barn:

- yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Datganiadau drafft
- pan fydd y ceisiadau'n cael eu paratoi i'w cyflwyno i'r Comisiwn – ar y cam hwn mae angen i ddatblygwyr ymgynghori â chymunedau lleol am yr hyn y maent yn bwriadu ei wneud
- yn ystod archwiliad y Comisiwn o'r ceisiadau – pan all unigolion a grwpiau gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig yn ogystal â thystiolaeth yn bersonol mewn gwrandawiadau agored a gynhelir gan y Comisiwn.

Archif

# Beth yw Datganiad Polisi Cenedlaethol? Pam mae mor bwysig?

Bydd ymgynghoriadau cyhoeddus ar Ddatganiadau drafft yn rhoi cyfle i drafod yr angen cenedlaethol am y mathau gwahanol o seilwaith – yn hytrach nag ailadrodd hyn pan gaiff pob cais seilwaith mawr ei ystyried gan y Comisiwn. Unwaith y bydd Datganiad terfynol ar waith, bydd y Comisiwn yn canolbwyntio ar y materion sy'n berthnasol i'r cais cynllunio arbennig hwnnw yn hytrach na'r materion ehangach o ran angen.




Archif

Bydd Datganiadau ar gyfer y mathau canlynol o seilwaith:

***Ynni***

- Gorsafoedd ynni niwclear
- Ynni adnewyddadwy – cynhyrchu trydan (e.e. ffermydd gwynt)
- Rhwydweithiau trydan (h.y. llinellau pŵer ac ati)
- Tanwydd ffosil – cynhyrchu trydan (e.e. gorsafoedd pŵer nwy a glo)
- Seilwaith olew a nwy (e.e. piblinellau a storio)

***Trafnidiaeth***

- Porthladdoedd
- Rhwydweithiau cenedlaethol (h.y. ffyrdd a rheilffyrdd strategol, gan gynnwys cyfnewidfeydd rheilffyrdd cludo nwyddau strategol)
- Meysydd awyr

***Dŵr a gwastraff***

- Dŵr gwastraff (e.e. seilwaith trin carthion)
- Gwastraff peryglus (e.e. llosgi tymheredd uchel)
- Cyflenwad dŵr (e.e. cronfeydd dŵr)

Archif

Bydd y Datganiadau yn pennu'r angen cenedlaethol ac yn nodi polisi ar gyfer seilwaith; yn egluro sut maent yn ystyried polisïau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol perthnasol y Llywodraeth; ac yn dangos sut maent yn cyfrannu at y gwaith o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd pob Datganiad drafft yn cael ei arfarnu o ran ei gynaliadwyedd, bydd cyfle i aelodau'r cyhoedd leisio eu barn, a bydd Senedd y DU yn craffu arnynt cyn y cânt eu cwblhau'n derfynol.

Bydd Datganiadau sy'n cwmpasu gorsafoedd ynni niwclear newydd a datblygiadau meysydd awyr yn cynnwys arweiniad mwy penodol i'r Comisiwn o ran lle y gallai'r datblygiadau hynny gael eu hadeiladu. Pan enwir lleoliadau posibl ar gyfer y datblygiadau hyn yn y Datganiadau, cynhelir ymgynghoriad lleol â'r cymunedau y gallai'r datblygiadau effeithio arnynt.



Archif



# Sut y gallaf gymryd rhan?

Eich cyfle cyntaf i gymryd rhan fydd pan gaiff y Datganiadau Polisi Cenedlaethol drafft eu cyhoeddi - mae'n bwysig i chi achub ar y cyfle hwn i feddwl am ba seilwaith cenedlaethol sydd ei angen arnom a mynegi eich barn. Unwaith y caiff y Datganiad ei gwblhau'n derfynol bydd yn darparu fframwaith i'r Comisiwn wneud penderfyniadau ar geisiadau unigol.

Bydd y gweithgareddau ar gyfer pob ymgynghoriad yn amrywio gan ddibynnu ar destun y Datganiad ond bydd pob ymgynghoriad yn cynnwys cyfleoedd priodol i'r cyhoedd gymryd rhan.

Archif

Bydd yr ymgynghoriadau ar y Datganiadau gwahanol yn digwydd mewn camau yn ystod 2009-11. Er mwyn cael rhagor o fanylion ynghylch pryd y cânt eu cynnal a sut i wneud sylwadau ewch i www.direct.gov.uk/infrastructureplanning

Planning Aid
Engaging Communities in Planning

Os oes angen cyngor annibynnol pellach arnoch cysylltwch â Planning Aid – sefydliad sy'n rhoi cyngor cynllunio proffesiynol annibynnol am ddim i unigolion a grwpiau na allant fforddio talu ffioedd proffesiynol - ar (0121) 214 2915 neu www.planningaid.rtpi.org.uk

Planning Aid for London

Er mwyn cysylltu â Planning Aid for London ewch i www.planningaidforlondon.org.uk neu ffoniwch (020) 7247 4900

Ⓒ Hawlfraint y Goron 2009. ISBN 978 1 4098 1866 3. Argraffwyd ym Mhrydain Fawr